

Cysondeb Crist

“Oherwydd nid oes dim wedi ei guddio na ddatguddir, na dim yn guddiedig na cheir ei wybod.” (adn. 26)

Beth am ddarllen Mathew 10:24–33 ac yna myfyrio

Heddiw, mae'n rhaid inni feddwl am ail ran y cymal o dan sylw: “yr holl bethau y dechreuodd Iesu eu gwneud a'u dysgu” (Actau 1:1). Soniodd Luc am weithredu yn gyntaf ac yna dysgu. Buom ni'n dweud nad mater o siawns ydy'r drefn hon; mae'n treiddio i galon y ffydd Gristnogol. Daeth y Gair yn gnawd cyn y daeth y cnawd yn eiriau. Roedd Iesu'n mynegi'r hyn roedd yn ei fyw ac yn byw yr hyn roedd yn ei fynegi.

Y gwrthwyneb sy'n wir am bob athro arall. “Dilynwch y gwir dw i'n ei roi i chi, nid y fi” ydy eu neges. Mae Iesu'n dweud: “Canlynwch fi a byddwch yn adnabod y gwirionedd.” Roedd y gwirionedd a rannai i'w weld ar waith yn ei fywyd ei hun. Dyna pam roedd cymaint o awdurdod i'w wirionedd. Mae yna gysondeb yng Nghrist – mae ei eiriau a'i weithredoedd yn cydio yn ei gilydd gan eu bod yn ddwy ochr yr un realiti. Mae'n rhaid i ni Gristnogion ddilyn esiampl ein Harglwydd – mae'n rhaid i'n gwneud a'n dysgu fod yn un. Os nad oes unrhyw weithredu, yna gwagedd ydy ein geiriau.

Wrth i Sic yrru cenhadwr o amgylch yn India, gofynnodd: “Sahib, gad i mi bregethu i'r bobl yma un noson.” “Am beth fyddet ti'n ei bregethu?” gofynnodd y cenhadwr. “Mi fyddwn i'n pregethu yn erbyn gwirodydd a thybaco,” meddai'r Sic. “Ond,” meddai'r cenhadwr, “rwy'ti'n defnyddio'r ddau.” “Ydw, mi wn,” meddai'r Sic, “ond dyw'r bobl yma ddim yn gwybod hynny.” Ymhen hir a hwyr, mi fydden nhw wedi darganfod, fel y dywed ein testun, nad “oes dim wedi ei guddio na ddatguddir.” Mae pobl yn cael ymdeimlad o realiti wrth ymdeimlo â harddwch a chytgord. Pan siaradai Iesu, roedd realiti'n siarad. Dywedodd un pregethwr amdano: “Pan oedd Iesu'n siarad roedd pobl yn gwybod nad dehongli testun ydoedd ond amlygu saerniaeth ei enaid.” Mae'n rhaid i'n gweithredoedd a'n dysgu fod yn un, neu ni allwn ni ddysgu.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 15:1–5; 1 Ioan 3:17–24; Dat. 15:1–4

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut ddylen ni garu, yn ôl yr apostol Ioan?
2. Sut y rhoddir clod i Dduw drwy gân Moses a'r Oen?

Gweddi

O Dduw, rho ddyhead ynof i fod crystal ar y tu mewn ag yr wyf yn ymddangos ar y tu allan. Boed i ngeiriau a ngweithredoedd roi'r un neges – dy neges di. Yn enw Iesu. Amen.